Datganiad o Fwriad ar gyfer ECO4 a Chynllun Inswleiddio Prydain Fawr

Datganiad o Fwriad Cymhwystra Hyblyg Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr ac ECO4 Cyngor Sir Ceredigion

Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad Cyhoeddi: 20/09/2024

Rhif y fersiwn: F 4.0

Cyhoeddir ar wefan: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/gwybodaeth-a-chymorth-ariannol/cynlluniau-effeithlonrwydd-ynni/cyllid-hyblygrwydd-eco/

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwystra hyblyg **Cyngor Sir Ceredigion** ar gyfer cynlluniau y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) ac Inswleiddio Prydain Fawr, sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2026.

Bydd cynllun ECO4 yn canolbwyntio ar gynorthwyo aelwydydd incwm isel ac agored i niwed. Bydd y cynllun yn gwella'r cartrefi sy'n defnyddio ynni yn y ffordd leiaf effeithlon, gan helpu i fodloni ymrwymiadau sero net a thlodi tanwydd y Llywodraeth. Bydd Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr yn cynorthwyo cynllun ECO4 i ddarparu mesurau unigol yn bennaf wedi'u targedu at ystod ehangach o aelwydydd.

Cyfeirir at y dull gweithredu i Awdurdodau Lleol (ALlau) er mwyn nodi aelwydydd agored i niwed ac sy'n dioddef tlodi tanwydd, y gallent gael budd gan fesurau arbed ynni a gwresogi, fel "Fflecs ECO4" a "Fflecs Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr".

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad (SoI) hwn ar **20/09/2024** er mwyn cadarnhau y bydd pob un o'r aelwydydd datganedig yn cydymffurfio ag o leiaf un o blith y

pedwar llwybr sydd ar gael a amlinellir isod. Gellir defnyddio’r blychau ticio i ddynodi i aelwydydd pa lwybrau a ddefnyddir gan y cyngor:

[A fyddech gystal â defnyddio’r blychau ticio i ddynodi pa lwybrau a ddefnyddir gan yr ALl / DA]

☒ **Llwybr 1:** Aelwydydd yn eiddo i berchen-feddianwyr ac yn y sector rhentu preifat sydd ag incwm blynyddol gros sy’n llai na £31,000. Mae’r cap hwn yn berthnasol beth bynnag fo maint yr eiddo, ei gyfansoddiad, neu’r rhanbarth y mae ynddo.

☒ **Llwybr 2:** Aelwydydd yn eiddo i berchen-feddianwyr ac yn y sector rhentu preifat sy’n bodloni cyfuniad o ddau o’r mesurau procsi canlynol:

Mesur Procsi 1) Cartrefi yn Lloegr mewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1-3 (LSOA)[1], neu gartrefi mewn darpariaeth Gymreig LSOA 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019[2], neu gartrefi yn yr Alban ym “mharth data” 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban 2020[3]*
Mesur Procsi 2) Mae gan rywun sy’n byw ar y safle yr hawl i fanteisio ar ostyngiad Treth Gyngor o ganlyniad i’w hincwm isel.
Mesur Procsi 3) Ystyrir bod unigolyn sy’n byw ar y safle yn agored i niwed gan dywydd oer dan Ganllawiau NH6: Argymhelliad 2 Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), am reswm ac eithrio eu hincwm isel[4]*
Mesur Procsi 4) Mae plentyn sy’n byw ar y safle yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o ganlyniad i’w hincwm isel[5]
Mesur Procsi 5) Caiff unigolyn sy’n byw ar y safle eu cynorthwyo gan gynllun a sefydlwyd gan yr ALl/DA a gaiff ei enwi a’i ddisgrifio yn eu Datganiad o Fwriad ac a sefydlwyd i gynorthwyo

[1] Cyhoeddwyd ar https://www.gov.uk/government/statistics/english-indices-of-deprivation-2019. Cyhoeddir y degraddau yn “File 7: all ranks, deciles and scores for the indices of deprivation, and population denominators”.
[2] Cyhoeddwyd ar https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019
[3] 2020v2. Cyhoeddwyd ar http://www.gov.scot/publications/scottish-index-of-multiple-deprivation-2020v2-ranks
[4] https://www.nice.org.uk/guidance/ng6/chapter/1-Recommendations#recommendation-2-ensure-there-is-a-singlepointofcontact-health-and-housing-referral-service-for
[5] Dan adran 512ZB(4) Deddf Addysg 1996 neu adran 53 Deddf Addysg (Yr Alban) 1980

pobl sy'n byw ar incwm isel ac yr ystyrir eu bod yn agored i niwed yn ystod tywydd oer dan Ganllawiau NG6 NICE. **[Nid yw Mesur Procsi 5 ar gael yng Ngheredigion)**
Mesur Procsi 6) Aelwyd a gyfeiriwyd i'r ALl am gymorth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth neu Gyngor ar Bopeth yr Alban, oherwydd y nodwyd eu bod yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau trydan a/neu nwy.
Mesur Procsi 7) [Sylwer, mae mesur procsi 7 ar gyfer data dyled y mae'r cyflenwr yn berchen arno ac fe'i rhestrir yma er gwybodaeth yn unig]. Aelwydydd a nodir trwy gyfrwng data dyled cyflenwr ynni. Mae'r llwybr hwn yn galluogi cyflenwyr y mae rhwymedigaeth arnynt i ddefnyddio eu data eu hunain am ddyled i nodi aelwydydd heb fesurydd rhagdalu (heb PPM), neu aelwydydd sydd â mesurydd rhagdalu (PPM)*. a. **Cwsmeriaid heb PPM:** Cwsmeriaid yw'r rhain sydd wedi bod mewn dyled am dros 13 wythnos gan orffen ar y diwrnod pan wneir y datganiad, ac y maent wedi ymrwymo i gynllun ad-dalu dyled gyda'u cyflenwr ynni neu y maent yn ad-dalu eu dyled tanwydd trwy gyfrwng didyniadau 3ydd parti. b. **Cwsmeriaid PPM:** Gall cyflenwyr nodi aelwydydd PPM hefyd sydd: • wedi hunan-ddatgysylltu neu gael credyd Cyfeillgar/Dewisol cyflenwr yn ystod yr 13 wythnos diwethaf gan orffen ar y diwrnod pan wneir y datganiad; neu • sydd wedi ymrwymo i gynllun ad-dalu dyled gyda'u cyflenwr ynni; neu • sy'n ad-dalu eu dyled tanwydd trwy ddidyniadau 3ydd parti.*

* Sylwer ni ellir defnyddio mesurau procsi 1 a 3 gyda'i gilydd.

* Ni ellir defnyddio Mesur Procsi 7 ar y cyd â mesur procsi 5 neu fesur procsi 6.

☒ **Llwybr 3:** Aelwydydd yn eiddo i berchen-feddianwyr ac yn y sector rhentu preifat a nodwyd gan unigolyn wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Meddygon Teulu, gyda Bwrdd Iechyd yn yr Alban, Bwrdd Iechyd yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG fel rhywun agored i niwed, ac y gallai cyflyrau iechyd un o'r meddianwyr gael eu heffeithio gan y ffaith eu bod yn byw mewn cartref oer. Rhaid bod y cyflyrau iechyd hyn yn gysylltiedig â rhai cardiofasgwlaidd, resbiradol, imiwnoataliedig neu symudedd cyfyngedig.

☐ **Llwybr 4 [yn berthnasol i Fflecs ECO4 yn unig]:** Aelwydydd yn eiddo i berchen-feddianwyr ac yn y sector rhentu preifat a gyfeirir dan Lwybr 4: Targedu Pwrpasol. Gall cyflenwyr ac ALlau gyflwyno cais i'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net pan fyddant wedi nodi dulliau newydd o adnabod aelwydydd incwm isel ac agored i niwed. Bydd angen i geisiadau ddangos nifer o ffactorau, gan gynnwys y ffaith bod y fethodoleg arfaethedig yn fwy effeithiol wrth nodi aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd na'r maen prawf a gynigir dan Lwybrau 1 a 2.

Cymhwystra cynllun

Dylai pob cartref a allai fod yn gymwys wneud cais drwy un o'r gosodwyr/darparwyr ECO4 Flex/ Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr sy'n gymeradwy gan **Gyngor Sir Ceredigion**, i wneud yn siŵr y gallant naill ai elwa o'r cynllun neu gael eu hasesu i fod yn gymwys o dan ryw raglen berthnasol arall. Nid yw'r Cyngor yn derbyn atgyfeiriadau oddi wrth ffynonellau neu drydydd partïon sydd ddim ar restr gymeradwy'r Cyngor o osodwyr/darparwyr ECO4 Flex/ Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr.

Bydd swyddog ALl (nid 3ydd parti sy'n gweithio ar ran ALl) yn gyfrifol am archwilio a dilysu tystiolaeth, a chyhoeddi datganiadau. Am unrhyw ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud â'r SoI hwn, cysylltwch â:

Enw: Gareth Payne

Teitl Swydd: Swyddog Addasiadau Tai ac Effeithlonrwydd Ynni

Ffôn: 01545 572105

E-bost: desh.housing@ceredigion.gov.uk

Llofnod gorfodol Prif Swyddog Gweithredol neu unigolyn cyfrifol penodedig.

Bydd **Cyngor Sir Ceredigion** yn gweinyddu cynllun Fflecs ECO4 yn unol â Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2022 (Gorchymyn ECO4).
Bydd y Cyngor yn gweinyddu Fflecs Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr yn unol â Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2023 (Gorchymyn ECO4A).

Bydd y Prif Swyddog Gweithredol/unigolyn cyfrifol penodedig y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys dan Fflecs ECO a Fflecs Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr. Bydd y Cyngor yn hysbysu Ofgem o aelwydydd y cyhoeddwyd datganiadau ar eu cyfer trwy gyfrwng y templed hysbysu datganiad.

Caiff yr holl ddata personol a gesglir neu a brosesir gan **Gyngor Sir Ceredigion** at ddibenion Fflecs ECO4 neu Fflecs Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr ei brosesu a'i storio yn unol â: rhwymedigaethau'r Cyngor dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018, polisi diogelu data y Cyngor, canllawiau eraill a Chod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a chanllawiau'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net.

Llofnod:

Enw: Mr.Eifion Evans

Teitl y Swydd: Prif Weithredwr

Dyddiad y llofnod: 12 Medi, 2024